

❖ YN DILYN Y NADOLIG

Gweddi agoriadol:

Cofiwn a moliannwn dy enw
 am saint a merthyron ein hoes a phob oes
 y bu i'w bywydau, fel had, ddisgyn i'r ddaear,
 ond y bu i'w tystiolaeth ein hysbrydoli a dwyn ffrwyth.
 Amen. *John L. Bell*

Darllen: 2 Corinthiaid 11:21–28 a 12:7–10

Gweddi:

Dros yr holl saint
 sy'n byw wrth ein hymyl
 sydd â'u gwendidau a'u cryfderau
 wedi eu gwau gyda'n rhai ni,
moliannwn di, O Dduw.

Dros yr holl saint
 sy'n byw y tu hwnt i ni
 sy'n ein herio
 i newid y byd gyda hwy,
moliannwn di, O Dduw. Amen.

Myfyrdod:

Tra'n dilyn y wedd gynt, moment bwysig fyddai honno pan gyrhaeddid pen y dalar. Beth bynnag a wneid yno, un ohonynt fyddai edrych yn ôl i weld pa mor syth oedd y gwys. Nid ar ganol cwys yr oedd adolygu ond ar ben y dalar.

Dyma hi'n ben talar eto. Sawl gwyrriad a fydd yng nghwys y flwyddyn nesaf tybed? Priodol yw edrych yn ôl fan hyn er mwyn ceisio torri cwys well i'r dyfodol, os rhoddir cyfle i ni. Hawdd yw adnabod nyrs a phlismen, offeiriad a dyn ambiwlans – mae'r wisg yn gymorth. Y cwestiwn rŷm am ei ofyn ar ben y dalar eleni yw hwn: Oes yna rywbeth o'n cwmpas ni, ddilynwyr Crist, sy'n ein marcio ni fel rhai'n perthyn iddo Ef? Meddai Paul wrth y Galatiaid: 'Yr wyf yn dwyn nodau Iesu yn fy nghorff.' (6:17)

Bydd bugail yn gofalu rhoi nod ar ei ddefaid, a marc ychwanegol ar eu cnu. Y cwestiwn clir yw: Oes yna rywbeth sy'n dangos i bwy rydym ni'n perthyn? Roedd rhai'n tybio nad oedd Paul yn wir apostol, ac mae'n dechrau ei gymharu ei hun â hwy: a oes ganddynt farciau'r Arglwydd arnynt? Beth yw'r prawf o'n hymlyniad? Ystyriwn ddau beth am funud, sef:

1. Ystyr llythrennol y gosodiad hwn

Arferid marcio caethweision â haearn poeth i ddangos i bwy y perthynent. Roedd marciau Paul yntau, meddai, yn ei ddynodi fel caethwas Crist: 'Yr wyf wedi mynd yn bob peth i bawb, er mwyn... achub rhai.' Roedd marciau'r milwr da arno, a dyna'r disgrifiad yn ein darlenniad o'i ddiodefidiadau corfforol enbyd.

Rydym eisiau bod yn Gristnogion esmwyth, heb wybod fawr am ddiodefdef er mwyn Crist. Cofiwn am y rhai sy'n diodefdef drosto heddiw mewn rhai manau.

A elwir eto ar Gristnogion ym Mhrydain i ddiodefdef gwaradwydd a phoen er mwyn ei enw Ef? Cofiwn nad yw hyn yn amhosibl yn ein hansawdd gymdeithasol gyfoes. Darllenwn hanes William Pritchard, Clwchdernog, Môn a rhai tebyg iddo: 'Aethant ar eu taith o wŷydd y Sanhedrin, yn llawen am iddynt gael eu cyfrif yn deilwng i dderbyn amarch er mwyn yr Enw.'

2. Ystyr ysbrydol y gosodiad

Anodd cymhwyso ystyr llythrennol y testun i ni, ond gellir cymhwyso'r ystyr ysbrydol. Pa farciau a ddylai nodweddu'r Cristion? Nid oes raid mynd allan o'r llythyr hwn am ateb: 'llawenydd, tangnefedd, goddefgarwech, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunan-ddisgyblaeth... Dygwch feichiau eich gilydd...'

Pa bethau a aeth â'n bryd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio? Yn ôl yn 1995, bu cyfarfod yn Edern, Llŷn i ddathlu canmlwyddiant geni Tom Nefyn Williams. Siaradwyd yn afaelgar a bendithiol gan gyfeillion a'i hadwaenai, ac roedd yno lond capel eang o bob cwr o Ogledd Cymru wedi dod i gofio'r gwas da hwnnw i Grist, bron ddeugain mlynedd wedi iddo huno yn yr Iesu ar nos Sul yn Rhydyclafdy. Roedd pobl wedi canfod yr arwyddion yn ystod ei fywyd, ac nid aiff peth felly yn angof gan werin gwlad. Awydd mawr y Gwardwr trwy ei weinidogaeth oedd gwneud ewyllys Duw, ac fe ddylai'r awydd hwnnw fod yn llosgi ym mynwes pob un ohonom.

Cyn dechrau ar gwys arall, os Duw a'i myn i ni, gofynnwn iddo ein anrhydeddu trwy roi arnom 'nodau Iesu' fel y gwelo cymdeithas eiddo pwy ydym a phwy a wasanaethwn. Amen.

Gweddiwn:

'Dysg ni, Arglwydd, i'th wasanaethu Di yn ôl dy haeddiant:

i roddi heb gyfri'r gost;

i frwydro heb ystyried y clwyfau;

i ymdrechu heb chwilio am orffwystera;

i lafurio heb ofyn am wobr ond trwy wybod y cyflawnir dy ewyllys;

trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.'

(Gweddi Sant Ignatiws Loyola)

Y Fendith:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda chwi oll. Amen.

Tudur Rowlands